

Llyisiau'r Dial

Mae gan Llyisiau'r Dial
(*Japanese Knotweed* yn
Saesneg) nifer o is-

rywogaethau sy'n perthyn yn agos, sydd hefyd yn groesrywiu. Mae darpariaethau Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981) yn berthnasol i bob un o'r rhain, a nodir ynddyn nhw, 'mae'n drosedd plannu neu fel arall achosi i'r planhigyn dyfu'n wyllt'.



Yn ôl Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990) mae Llyisiau'r Dial yn dod dan y categori 'gwastraff a reolir' felly dylid eu gwaredu mewn safle tirlenwi trwyddedig o dan Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (1991).

O adnabod a thrin Llyisiau'r Dial yn gynnar, bydd yn bosibl arbed arian ac amser yn y tymor hir gan fod y planhigyn wedi dechrau ymsefydlu'n unig, a bydd yn llai ystyfnig nag a fydd ar ôl ymsefydlu'n llawn.



Llyisiau'r Dial ar Dir Preifat

Nid oes rhaid i ni na Chyfoeth Naturiol Cymru reoli Llyisiau'r Dial ar ran tiffeddianwyr eraill. Y tiffeddianwr sy'n gyfrifol am reoli Llyisiau'r Dial ar ei dir os yw'n effeithio ar dir cyfagos.

Mae dyfalbarhad rhisomau Llyisiau'r Dial yn ei gwneud hi'n anodd lladd y planhigyn; bydd angen i chi drin Llyisiau'r Dial am nifer o flynyddoedd, hyd yn oed os ydych yn meddwl eich bod wedi'i ladd ar ôl y driniaeth gyntaf.

Ar ôl unrhyw fath o driniaeth, dylid monitro'r ardal yn rheolaidd i sicrhau nad yw Llyisiau'r Dial yn ymledu i rannau eraill nac yn halogi cyrsiau dŵr.

Nodwch: Bydd torri a ffustio Llyisiau'r Dial yn eu lledaenu. Peidiwch â chompostio na naddu Llyisiau'r Dial.

Cael Gwared ar Lysiau'r Dial

Ym Merthyr Tudful y mae eich safle gwaredu gwastraff trwyddedig agosaf sy'n derbyn Llyisiau'r Dial. Bydd angen i chi drefnu i gael gwared arno 24 awr ymlaen llaw.

Rhaid talu'r gost i gael gwared ar 3 thunnell fan lleiaf – a chyfran o'r Dreth Dirlenwi gan ddibynnu ar y pwysau.

Dylid gorchuddio trelars ar hyd y daith, a dylid clymu meintiau bach yn ddiogel mewn bag. Rhaid peidio â'i gludo'n rhydd.

Dylai gyrwyr sicrhau bod y cerbyd yn wag ac yn lân cyn gadael y safle.

Biffa Waste Services Ltd
Safle Tirlenwi Trecati
Pant-y-Waun, Merthyr Tudful, Morgannwg Ganol, CF48 4AB
01685 721882



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llysiâu'r Dial wrth ymyl Cwrs Dŵr

Pan fo Llysiâu'r Dial yn tyfu wrth ymyl afon neu gwrs dŵr, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Ffôn: 0300 0653000



Llysiâu'r Dial ar Dir y Cyngor

Os yw Llysiâu'r Dial yn tyfu ar Dir Cyngor Bro Morgannwg, rhowch wybod i Gyswllt Un Fro.

Ffôn: 01446 700111 E-bost: visible@valeofglamorgan.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar Lysiau'r Dial a sut i atal planhigion ymledol, anfrodorol, ewch i [weffan data.gov.uk](http://weffan.data.gov.uk).

This document is available in English/Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg